

19th June 2019

Llannon Community Council

Minute no. 41 – Members Present

Councillors: E Dole
S Acciaioli
PC Edwards
K Thomas
N Holman
D Jones
A Owens
D Snaith
P Williams
A L Williams
G Jones
M Jones
E James

Chairman Councillor N Holman presided over the meeting
--

Also present: The Clerk and the Responsible Finance Officer (RFO).

Minute no. 42 – Apologies for Absence

Apologies for absence were received from Cllrs L Davies and R Thomas.

Minute no. 43 – Declarations of Interest

A declaration of interest was received from Councillor D Jones as she is a County Councillor and sits on the Planning Committee and Cllr E Dole as leader of Carmarthenshire CC

Minute no. 44 – Llannon Community Association

The Council received Kelly Matthews and Andrew Crompton from Llannon Community Association. It was reported that a quotation has been received from HAGS in the sum of £80,000 for the provision of a new park at Llannon. The Children of Llannon School have seen the design and are very excited with the proposal. The Clerk provided an overview of the tender process which is currently in progress and will be judged by the local community in partnership with the Council.

Minute no. 45 – Signing of the Minutes – 15th May 2019 Annual Council Meeting

Resolved that the minutes of the above meeting, having been previously circulated, be accepted as read, confirmed and signed as a true and legal record of the matters transacted.

Reason – to adhere to the requirements of the Local Government Act 1972 Sch 12, para 41 (1) and (4) and section 99.

Minute no. 46 – Signing of the Minutes – 15th May 2019 Resumed Annual Council Meeting

Resolved that the minutes of the above meeting, having been previously circulated, be accepted as read, confirmed and signed as a true and legal record of the matters transacted.

Reason – to adhere to the requirements of the Local Government Act 1972 Sch 12, para 41 (1) and (4) and section 99.

Cofnod rhif 41 – Aelodau'n Bresennol

Cynghorwyr:

E Dole
S Acciaioli
P C Edwards
K Thomas
N Holman
D Jones
A Owens
D Snaith
P Williams
A L Williams
G Jones
M Jones
E James

Y Cadeirydd, y Cynghorydd N Holman, oedd yn llywyddu ar y cyfarfod
--

Hefyd yn bresennol: Y Clerc a'r Swyddog Datblygu Cymunedol (SDC) / Swyddog Cyllid Cyfrifol (SCC).

Cofnod rhif 42 – Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddiwrth y Cynghorwyr L Davies a R Thomas.

Cofnod rhif 43 – Datganiadau o Fuddiant

Cafwyd datganiadau o fuddiant gan y Cynghorydd D Jones gan ei bod yn aelod o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin, a gan y Cynghorydd E Dole gan taw fe yw Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin.

Cofnod rhif 44 – Cymdeithas Cymunedol Llannon

Croesawodd y Cyngor Kelly Matthews ac Andrew Crompton o Gymdeithas Cymunedol Llannon. Dywedwyd bod dyfynbris o £80,000 wedi'i dderbyn o HAGs i ddarparu parc newydd yn Llannon. Mae plant Ysgol Llannon wedi gweld y cynlluniau ac yn gyffrous iawn ynghylch y cynnig. Cafwyd trosolwg gan y Clerc o'r broses tendro sydd ar waith ar hyn o bryd, ac a fydd yn cael ei werthuso gan y gymuned leol mewn partneriaeth â'r Cyngor.

Cofnod rhif 45 – Llofnodi'r Cofnodion – Cyfarfod y Cyngor – Mai 15^{fed} 2019

Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddisbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd yn amodol ar fân newidiadau.

Rheswm – i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972 At 12, para 41 (1) a (4) ac adran 99

Cofnod rhif 46 – Llofnodi'r Cofnodion – Ailgyntnull y Cyfarfod Blynyddol – Mai 15^{fed} 2019

Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddisbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd yn amodol ar fân newidiadau.

Rheswm – i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972 At 12, para 41 (1) a (4) ac adran 99

Minute no. 47 – Matters Arising from Minutes

The Clerk provided a report on the following matters:

a) **Minute no. 19 – Hanging Baskets**

It was reported that the hanging baskets and baskets on top of the railings at Gwernllwyn have been installed. The caretakers have also finished planting up the planters at the entrance to the villages.

b) **Minute no. 22 – Defibrillator**

Cllr N Holman reported that signs have been obtained for placing at the phone boxes confirming the transfer from a telephone kiosk to a defibrillator kiosk.

c) **Minute no. 24 – Cross Hands Park**

The Clerk reported that there continues to be significant problems of vandalism at Cross Hands Park. A series of dummy CCTV cameras have been installed at the park together with warning signs. However, unfortunately these have also been vandalised.

Resolved that the Council considers erecting live CCTV cameras at the site immediately, including a camera at the entrance to the park.

d) **Minute no. 28– Adverse Possession**

The Clerk reported that he had received further communication from Rev E Evans regarding details of ownership of this land. The Clerk confirmed that he has written to the owners of the land outlining the offer as agreed by the Council to take ownership of the land.

e) **Minute no. 29 – Skateboard Park**

The Clerk reported that he has provided a submission to the County Council with regard to the inclusion of the funding of a Development Officer to project manage this proposal as part of the existing grant. A tender has also been submitted to play consultants for a quote to complete this work.

Minute no. 48 – Job Description of Council Leader & Projects Co-ordinator

The Chairman reported that a draft job description had been produced for the above posts, a copy of which was provided to members for their reference. It was **resolved** to circulate the documents to Councillors for their reference and comment.

Minute no. 49 – Risk Assessment Committee

Resolved to appoint the following members onto the above committee:

Cllrs P Williams, M Jones, W James, G Jones and D Snaith.

It was further agreed to refer consideration of the appointment of a Councillor with special responsibility for Risk Assessment to the Risk Assessment Committee.

Minute no. 50 – Finance and Audit Committee

It was **resolved** to appoint the following Councillors onto the above Committee:

Cllrs N Holman, P Williams, S Acciaioli, A Owens, M Jones, D Jones and L Davies.

Minute no. 51 – Finance Reports

Cofnod rhif 47 – Materion yn Codi o'r Cofnodion

Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynghylch y materion canlynol:

a) **Cofnod rhif 19 – Basgedi Crog**

Dywedwyd bod y basgedi crog a'r basgedi ar y reilins yng Ngwernllwyn wedi'u gosod. Mae'r gofalwyr hefyd newydd orffen plannu'r potiau blodau ger y mynediad i'r pentrefi.

b) **Cofnod rhif 22 – Diffibriliwr**

Dywedodd y Cynghorydd N Holman bod yr arwyddion, i'w gosod yn y ciosgau ffôn i gadarnhau bod y ciosg ffôn erbyn hyn yn safle diffibriliwr, nawr ar gael.

c) **Cofnod rhif 24 – Parc Cross Hands**

Dywedodd y Clerc bod dal problemau fandaliaeth dyrys ym Mharc Cross Hands. Gosodwyd cyfres o gamerâu teledu cylch cyfyng ffug yn y parc, ynghyd ag arwyddion rhybudd. Serch hynny, yn anffodus, mae'r rhain wedi'u fandaleiddio hefyd.

Penderfynwyd bod y Cyngor yn ystyried gosod camerâu teledu cylch cyfyng go-iawn ar y safle ar unwaith, gan gynnwys gosod camera wrth fynediad y parc.

d) **Cofnod rhif 28 – Meddiannaeth Wrthgefn**

Dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn gohebiaeth bellach oddiwrth y Parch. E Evans ynghylch perchnogaeth y tir hwn. Roedd y Clerc wedi cadarnhau ei fod wedi ysgrifennu at berchnogion y tir i amlinellu'r cynnig i gymryd perchnogaeth o'r tir, fel y cytunwyd gan y Cyngor.

e) **Cofnod rhif 29 – Parc Sglefrfyreddio**

Dywedodd y Clerc ei fod wedi cyflwyno cais i'r Cyngor Sir i ofyn eu bod yn cynnwys arian yn y grant presennol i ariannu Swyddog Datblygu i reoli'r prosiect hwn. Hefyd, cyflwynwyd tendr i'r ymgynghorwyr chwarae yn gofyn am ddyfynbris i gwblhau'r gwaith yma.

Cofnod rhif 48 – Swydd Ddisgrifiad – Arweinydd y Cyngor a Chyd-gysylltydd Prosiectau

Dywedodd y Cadeirydd bod disgrifiadau swydd drafft wedi'u llunio ar gyfer y swyddi uchod, a darparwyd copi i'r aelodau, er gwybodaeth. **Penderfynwyd** cylchredeg y dogfennau i'r Cynghorwyr fel eu bod yn gallu cyfeirio at, a gwneud sylwadau arnynt.

Cofnod rhif 49 – Pwyllgor Asesu Risg

Penderfynwyd penodi'r aelodau canlynol i'r pwyllgor uchod:

Y Cynghorwyr P Williams, M Jones, W James, G Jones a D Snaith.

Hefyd, cytunwyd cyfeirio ystyried penodi Cynghorydd, gyda chyfrifoldeb arbennig am Asesu Risg, i'r Pwyllgor Asesu Risg.

Cofnod rhif 50 – Pwyllgor Cyllid ac Archwilio

Penderfynwyd penodi'r aelodau canlynol i'r pwyllgor uchod:

Y Cynghorwyr N Holman, P Williams, S Acciaioli, A Owens, M Jones, D Jones a L Davies.

Cofnod rhif 51 – Adroddiadau Ariannol

The Council considered the content of the previously circulated financial reports together with some additional reports that were circulated on the night including the following:

- Bank Reconciliation
- Customer Activity
- Day Books – paid invoices

The RFO answered queries as raised by members of the Council and it was agreed to note the reports.

Minute no. 52 – Year end Accounts and Annual Return

Members considered a report from the RFO on the accounts for the last financial year. It was **resolved** to approve the accounts and authorise the Chairman to sign the Accounts and Annual Return.

Minute no. 53 – Land Use Planning – Town and Country Planning Act

(a) Proposed Development

Resolved that the following applications be noted onto the minutes.

Reason: Members did not request that observations/objections be conveyed to the County Planning Authority in respect of the proposed developments.

Councillor D Jones declared an interest and left the meeting whilst planning matters were discussed.

- S/38916 Single storey side extension, including roof lights, as replacement of existing adjoined outbuilding. Raised deck area and replacement flat roof at Tre Neddyn, Pontarddulais, Swansea. Helen Groom.
- S/388868 Proposed canopy to prevent the elements from damaging fabricated steel products at Shuffle bottom Ltd, Heol Parc Mawr, Cross Hands, Llanelli. Shufflebottom.

b) Decision Notices Granted

Resolved that the following applications be noted onto the minutes.
None received.

(c) Decision Notices Refused

None received.

(d) Decision Notices Appealed

None received.

Minute no. 54 – Cross Hands Wellbeing Hub

- PA/16692 Proposed construction of the Cross Hands Wellbeing Hub with associated works at land at Cross hands Retail Park.

It was **resolved** to support this application in principle, subject to there being a review of the parking arrangements for the development by the County Council.

Minute no. 55 – Sensory Garden and Orchard

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i gynnwys yr adroddiadau ariannol a ddsbarthwyd yn flaenorol, ynghyd ag ambell adroddiad ychwanegol a ddsbarthwyd yn y cyfarfod, gan gynnwys y canlynol:

- Cysoniad Banc
- Gweithgaredd gan Gwsmeriaid
- Llyfrau Dyddiol – anfonebau a dalwyd

Roedd y SCC wedi ateb cwestiynau a godwyd gan aelodau'r Cyngor a chytunwyd i nodi'r adroddiadau.

Cofnod rhif 52 – Cyfrifon Diwedd Blwyddyn a Datganiad Blynyddol

Roedd yr aelodau wedi ystyried yr adroddiad oddiwth y SCC ynghylch cyfrifon y flwyddyn ariannol ddiwethaf. **Penderfynwyd** cymeradwyo'r cyfrifon, ac awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi'r Cyfrifon a'r Datganiad Blynyddol.

Cofnod rhif 53 – Cynllunio Defnydd Tir – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref

Penderfynwyd bod y ceisiadau canlynol yn cael eu nodi yn y cofnodion.

Rheswm: Nid oedd yr aelodau wedi gofyn i'r arsylwadau/gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r datblygiadau arfaethedig gael eu cyfleu i Awdurdod Cynllunio y Sir.

Roedd y Cynghorydd D Jones wedi datgan buddiant ac wedi gadael yr ystafell tra bod y materion cynllunio yn cael eu trafod.

- S/38916 Estyniad un llawr i'r ystlyslun, yn cynnwys ffenestri yn y to, yn lle'r tŷ ma's cyffiniol presennol. Ardal dec wedi'i godi a tho fflat amnewid yn Nhref Neddyn, Pontarddulais, Abertawe. Helen Groom.
- S/388868 Canopi arfaethedig i atal y tywydd rhag difrodi cynyrch dur ffabrigedig yn Shufflebottom Ltd, Heol Parc Mawr, Cross Hands, Llanelli. Shufflebottom.

(b) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Gymeradwy-wyd

Penderfynwyd nodi'r ceisiadau canlynol yn y cofnodion
Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau

(c) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Wrthodwyd

Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau o benderfyniadau a wrthodwyd.

(ch) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Apeliwyd

Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau o benderfyniadau a apeliwyd

Cofnod rhif 54 – Canolfan Les Cross Hands

- PA/16692 Cynllun arfaethedig i adeiladu Canolfan Les Cross Hands ynghyd â gwaith cysylltiedig ar dir ym Mharc Manwerthu Cross Hands.

Penderfynwyd cefnogi'r cais hwn mewn egwyddor, ar yr amod bod y Cyngor Sir yn adolygu'r trefniadau parcio ceir yn y datblygiad.

Cofnod rhif 55 – Gardd Synhwyrdd a Pherllan

Cllr L Williams proposed that the Council considers the provision of an Orchard in some of the parks in the area. It was **resolved** to allocate a budget of £1,000 for a group to be involved in community planting at various locations. The following Councillors agreed to work on the project, with Cllr L Williams taking the lead:

Cllrs K Thomas, L Williams, D Snaith, S Acciaioli and A Owens.

Minute no. 56 – CDO Report

The Council received the previously circulated report from the CDO who answered queries as raised by Councillors. The following points were noted:

- Concerns were raised regarding recent correspondence from Welsh Government with regard to the RCDF grant.
- A request was made for nominations from councillors and members of the public for gardens for the Pride in Your Garden competition.
- It was **resolved** to approve the Annual Report on Wellbeing subject to some amendments from Cllr L Williams.

Minute no. 57 – Operations Manager's Report

The Council received the previously circulated report from the Operation's Manager and the following points were agreed:

- A budget of £100 per month was allocated for advertising on Facebook/Instagram.
- It was agreed that Mike Williams be allowed to attend a training course on social media.

Minute no. 58 – Councillor Reports

Councillor E Dole reported the following matters:

- A copy of the indicative plans for the Community Hub at Cross Hands was provided for Councillors reference.
- There is a continuing water problem at Rhosyderi which Welsh Water have agreed to investigate.
- He is investigating a tree at Erw Non is overhanging a garden and there is also a knotweed problem on some open ground.
- A build out at a speed hump in Llannon will be removed as this is not required and is dangerous to cyclists.
- A planning application for Grugos Woods is being considered in the next week. A request has been made for a site visit by the Planning Committee.
- Cllr Dole gave thanks to councillors and helpers for assistance provided with marshalling of the OVO Tour.
- Cllr Dole also gave thanks to Tumble Hall for agreeing to hold the Executive Board Meeting in the near future.
- The County Council is likely to offer further support to the Skatepark scheme subject to the approval of the Executive Board.

Roedd y Cynghorydd L Williams wedi cynnig bod y Cyngor yn ystyried darparu Perllan yn rhai o barciau'r ardal. **Penderfynwyd** dyrannu cyllideb o £1,000 i grŵp a fydd yn trefnu gwaith plannu cymunedol mewn amrywiol leoliadau. Roedd y Cynghorwyr canlynol wedi cytuno i gydweithio ar y prosiect tra bod y Cynghorydd L Williams yn cymryd yr awennau:

Y Cynghorwyr K Thomas, L Williams, D Snaith, S Acciaioli ac A Owens.

Cofnod rhif 56 – Adroddiad y SDC

Derbyniodd y Cyngor adroddiad y SDC, a ddsbarthwyd yn flaenorol, ac atebodd gwestiynau'r Cynghorwyr fel y'u codwyd. Nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mynegwyd consyrn ynghylch yr ohebiaeth ddiweddar oddiwrth Llywodraeth Cymru parthed â'r grant RCDF.
- Gwnaethpwyd cais i ofyn i gynghorwyr ac aelodau'r cyhoedd enwebu gerddi i'w cynnwys yn y gystadleuaeth 'Yn Falch o'r Ardd'.
- **Penderfynwyd** cymeradwyo'r Adroddiad Llesiant Blynyddol, yn amodol ar ambell welliant gan y Cynghorydd L Williams.

Cofnod rhif 57 – Adroddiad y Rheolwr Gweithrediadau

Derbyniodd y Cyngor adroddiad y Rheolwr Gweithrediadau, a ddsbarthwyd yn flaenorol, a chytunwyd ar y materion canlynol:

- Dyrannwyd cyllideb o £100 y mis at bwrpas hysbysu ar Facebook/Instagram.
- Cytunwyd bod Mike Williams yn cael mynychu cwrs hyfforddiant i drafod y cyfryngau cymdeithasol.

Cofnod rhif 58 – Adroddiadau'r Cynghorwyr

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Dole ynghylch y materion canlynol:

- Darparwyd copi o'r cynlluniau dangosol ar gyfer y Ganolfan Gymunedol yn Cross Hands i'r Cynghorwyr, er gwybodaeth.
- Mae problem barhaus gyda dŵr yn Rhosyderi, ac mae Dŵr Cymru wedi cytuno i archwilio i'r mater.
- Mae'n archwilio coeden yn Erw Non sy'n bargodi uwchben gardd, ac hefyd mae 'na broblem gyda Chlymog Japan ar darn o dir agored.
- Bydd rhwystr ymwithiol twmpath cyflymder yn Llannon yn cael ei dynnu i ffwrdd; nid oes ei angen ac mae'n beryglus i feicwyr.
- Bydd cais cynllunio ar gyfer Coed Grugos yn cael ei ystyried yn ystod yr wythnos nesaf. Mae'r Pwyllgor Cynllunio wedi gofyn am ymweliad safle.
- Diolchodd y Cynghorydd Dole i'r cynghorwyr ac eraill a fu'n helpu gyda'r gwaith o stiwardio'r Daith OVO.
- Roedd y Cynghorydd Dole hefyd wedi diolch i Neuadd y Tymbl am gytuno i gynnal cyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol yn y dyfodol agos.
- Mae'n debyg y bydd y Cyngor Sir yn cynnig cefnogaeth ychwanegol i'r cynllun Parc Sglefrfyrrddio, yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol.

Cllr D Jones reported on the following matters:

- She has attended the Citizen's Advice Bureau AGM
- Meeting held with SWTRA and Welsh Government regarding the Cross Hands underpass.
- Met with Ruth Mullen regarding access off Heol Bryngwili.
- Bridle path in Llwynteg and new build Ffos y Ceiliog.
- Chased section 106 monies available for the ward.
- Organised speed watch training for 2 new members.
- Organised site visit regarding fly tipping on High St.
- Skip session organised for Maes Gwern.
- Community engagement afternoon organised at Tumble Hall including publicity photos from the Herald.
- Arranged meeting with the Health Board to discuss proposals for the new Health centre and the need to work in partnership with the Community Council regarding the hub to be located at Tumble.
- Liaised with residents regarding business grants.
- Attended the County walk the global walk in the Botanical Gardens with visiting teachers from Lesotho and local schoolchildren to discuss green sustainability.
- Site visit arranged to Tyr Landre Farm to discuss access issues and report provided to local residents.
- Marshalled Cwm Mawr section of the OVO tour with the Chairman and Nia Griffith MP.
- Working with residents on tree situation opposite houses in Tir Waun.
- Further skip afternoon arranged on 19th June for Cae Glas, Tir Waun and then Maes yr Haf Cross Hands.

Minute no. 59 – Balbini Family Tragedy

It was reported that it has now been 20 years since the Balbini Family Tragedy in the community. Members reported that a request was received for the provision of a bench at the location of the site together with the refixing of the plaque, however it was considered prudent that the remaining family in the community are consulted prior to doing this. **Resolved** to agree in principle to the provision of a seat and to the renewal of the plaque if required, subject to consultation with the family by Councillors.

Minute no. 60 – Signing of the Minutes – 21st May 2019 Personnel Committee

Resolved that the minutes of the above meeting, having been previously circulated, be accepted as read, confirmed and signed as a true and legal record of the matters transacted.

Reason – to adhere to the requirements of the Local Government Act 1972 Sch 12, para 41 (1) and (4) and section 99.

It was **agreed** to convene a further meeting of the Personnel Committee in July. It was further agreed to hold meetings of the Hall and the Finance and Audit Committees as soon as possible.

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd D Jones ynghylch y materion canlynol:

- Roedd hi wedi mynychu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor ar Bopeth
- Mae wedi cwrdd ag Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru a Llywodraeth Cymru i drafod tanffordd Cross Hands.
- Wedi cwrdd â Ruth Mullen ynghylch mynediad oddiar Heol Bryngwili.
- Llwybr ceffyl yn Llwynteg ac adeilad newydd Ffos y Ceiliog.
- Wedi mynd ar ôl yr arian Adran 106 sydd ar gael i'r ward.
- Wedi trefnu hyfforddiant gwylio cyflymder i 2 aelod newydd.
- Wedi trefnu ymweliad safle ynghylch tipio anghyfreithlon ar y Stryd Fawr.
- Wedi trefnu sesiwn sgip ar gyfer Maes Gwern.
- Wedi trefnu prynhawn o ymgysylltu cymunedol yn Neuadd y Tymbl gan gynnwys ffotograffau cyhoedduswydd o'r Herald.
- Wedi trefnu cyfarfod gyda'r Bwrdd Iechyd i drafod y cynigion ar gyfer y Ganolfan Iechyd newydd, a'r angen i gydweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor Cymuned parthed â'r hwb newydd a leolir yn y Tymbl.
- Wedi cysylltu â phreswylwyr ynghylch grantiau busnes.
- Wedi mynychu 'Walk the Global walk' y Sir yn y Gerddi Botaneg yng nghwmni athrawon o Lesotho a phlant ysgol lleol i drafod cynaliadwyedd werdd.
- Wedi trefnu ymweliad safle i Fferm Tŷ Llandre i drafod materion mynediad a darparu adroddiad ar gyfer preswylwyr lleol.
- Wedi stiwardio yng Nghwm Mawr yn ystod y Daith OVO yng nghwmni'r Cadeirydd a Nia Griffith AS.
- Gweithio gyda phreswylwyr ar goeden gyferbyn â thai yn Nhir Waun.
- Prynawn sgip ychwanegol wedi'i drefnu yng Nghae Glas, Tir Waun a Maes yr Haf, Cross Hands, ar Fehefin 19^{eg}.

Cofnod rhif 59 – Trasiedi y Teulu Balbini

Dywedwyd bod 20 mlynedd wedi mynd heibio ers Trasiedi y Teulu Balbini yn y gymuned. Dywedodd yr aelodau eu bod wedi derbyn cais i osod mainc ar leoliad y safle ac i ail-osod y plac. Serch hynny, ystyried ei bod hi'n ddoeth i ymgynghori gydag aelodau'r teulu sy'n dal i fyw yn y gymuned cyn bod y Cyngor yn gwneud hyn. **Penderfynwyd** cytuno, mewn egwyddor, i ddarparu mainc ac adnewyddu'r plac os oes angen, yn amodol ar y Cynghorwyr yn ymgynghori â'r teulu.

Cofnod rhif 60 – Llofnodi'r Cofnodion – Pwyllgor Personél– Mai 21^{ain} 2019

Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddosbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd yn amodol ar fân newidiadau.

Rheswm – i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972 At 12, para 41 (1) a (4) ac adran 99

Cytunwyd trefnu cyfarfod pellach o'r Pwyllgor Personél yn Gorffennaf, ac hefyd cytunwyd cynnal cyfarfodydd o Bwyllgor y Neuadd a'r Pwyllgor Cyllid ac Archwilio cyn gynted ag y bo modd.

Minute no. 61 – Safe Routes in Communities

Members received an invitation from the County Council to submit a bid under this funding. It was agreed to support a bid for improved pedestrian crossing facilities at Cross Hands. It was agreed that the County Councillors will organise a site visit with the school and Mr Thomas Evans, the transport planner in order to discuss the merits of the application and the specific needs of the school prior to agreeing the content of any application.

Minute no. 62 – Suspending Standing Orders

Resolved to suspend standing orders in order to continue the transaction of business beyond 9.00 pm.

Minute no. 63 – Financial Assistance

It was **resolved** to offer the following organisations a donation in accordance with its powers under Section 137 of the LGA 1972, which in the opinion of the Council is in the interests of the area or its inhabitants and will benefit them in a manner commensurate with the expenditure:

Llanelli Guide Dogs Association £100.00.

Minute no. 64 – Tumble Football Club

A request was received from Tumble Football Club for Llannon Community Council to look at the scope for taking over the public liability insurance for the whole of the Tumble Park area from the sporting clubs subject to any additional costs being potentially rechargeable under the lease agreement. It was **resolved** to agree in principle to this request subject to the clubs obtaining the necessary consent of the Carmarthenshire County Council. It was also noted that the football club is having difficulty in managing the area of land immediately behind Tumble Hall as the mower in their possession was not of a sufficiently high specification.

Cllr A Owens agreed to investigate the matter with a view to assisting the club with the cutting of the grass.

Minute no. 65 – Letter – Colin Rees

The council received correspondence from the above person regarding a number of issues affecting the Cwmmawr area. After a detailed discussion it was **resolved** to remove the baskets from some areas in the community in order to relocate at Cwmmawr should this be required, that a further path should be added to the list for clearance by the caretakers and the Council agree to purchase a replacement seat to be located at Cwmmawr.

Minute no. 66 –Councillor Reports

Cllr L Williams reported that a litter pick in Cross Hands is scheduled for the 6th July from 10 am -12 pm.

Cllr N Holman reported the following:

The stage school concert evening raised £390.00. It was suggested that the Council provides financial support to the school during the term and then the school holds shows through the year to pay back that support. **Resolved** to refer this matter to the Hall Committee.

The name of the stage school has changed to TLC stage school.

The purchase of marquees is being considered for community use. It was suggested that 2 no 8m x 8m marquees be purchased at a price of £3000 together with a canopy to be fixed between the marquees. It was agreed that local organisations within the Llannon Community Council area can use the marquees for free for local events.

Cofnod rhif 61 – Llwybrau Diogel yn y Gymuned

Roedd yr aelodau wedi derbyn gwahoddiad oddiwrth y Cyngor Sir i gyflwyno casi am y cyllid hwn. Cytunwyd cefnogi cais am well gyfleusterau croesi i gerddwyr yn Cross Hands. Cytunwyd bod y Cynghorwyr Sir yn trefnu ymweliad safle gyda'r ysgol a Mr Thomas Evans, y cynllunydd trafndiaeth, er mwyn trafod rhinweddau'r achos ac anghenion penodol yr ysgol cyn cytuno ar gynnwys unrhyw gais.

Cofnod rhif 62 – Rheolau Sefydlog

Penderfynwyd atal y rheolau sefydlog fel bod modd parhau i ystyried busnes y Cyngor ar ôl 9.00 yh.

Cofnod rhif 63 – Cymorth Ariannol

Penderfynwyd cynnig rhodd i'r sefydliadau canlynol yn unol â phwerau'r Cyngor o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a fydd, ym marn y Cyngor, o les i'r ardal a'i thrigolion mewn ffordd sy'n gymesur â'r gwariant:

Cymdeithas Cŵn Tywys Llanelli £100.00.

Cofnod rhif 64 – Clwb Pêl-droed y Tymbl

Derbyniwyd cais oddiwrth Glwb Pêl-droed y Tymbl yn gofyn i Gyngor Cymuned Llannon ystyried y posibilrwydd o gymryd drosodd talu'r yswiriant atebolrwydd cyhoeddus am yr holl barc ym Mharc y Tymbl o'r clybiau chwaraeon, yn amodol ar unrhyw gostau ychwanegol y gellir ailgodi tâl amdanynt yn ôl y brydles.

Penderfynwyd cytuno, mewn egwyddor, i'r cais hwn ar yr amod bod y clybiau yn derbyn y caniatâd angenrheidiol oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin. Hefyd, nodwyd bod y clwb pêl-droed yn cael trafferth i drin y darn o dir sydd yn union y tu ôl i Neuadd y Tymbl, gan fod y peiriant torri gwair sydd yn eu meddiant ddim o safon digon da.

Cytunodd y Cynghorydd A Owens archwilio'r mater, a chynnig help llaw i'r clwb drwy dorri'r gwair.

Cofnod rhif 65 – Llythyr – Colin Rees

Roedd y Cyngor wedi derbyn gohebiaeth oddiwrth y person uchod ynghylch nifer o faterion sy'n effeithio ar ardal Cwm Mawr. Wedi trafodaeth fanwl, **penderfynwyd** ail-leoli rhai o'r basgedi o fannau eraill yn y gymuned i Gwm Mawr os oes angen gwneud hynny, bod llwybr arall yn cael ei ychwanegu at restr glirio'r gofalwyr a bod y Cyngor yn cytuno i brynu mainc newydd i'w gosod yng Nghwm Mawr.

Cofnod rhif 66 – Adroddiadau'r Cynghorwyr

Dywedodd y Cynghorydd L Williams y cynhelir sesiwn casglu sbwriel ar Orffennaf 6^{ed} rhwng 10yb a 12yh.

Adroddodd y Cynghorydd N Holman y canlynol:

Roedd cyngerdd yr ysgol lwyfan wedi codi £390.00. Awgrymwyd bod y Cyngor yn darparu cefogaeth ariannol i'r ysgol yn ystod y tymor, a bod yr ysgol yn cynnal sioeau trwy gydol y flwyddyn i ad-dalu am y gefnogaeth honno. **Penderfynwyd** cyfeirio'r mater hwn i Bwyllgor y Neuadd.

Newidiwyd enw'r ysgol lwyfan i *TLC stage school*.

Ystyrir prynu pebyll mawrion at ddefnydd cymunedol. Awgrymwyd y gellid prynu 2 babell fawr o faint 8 metr x 8 metr, ynghyd â chanopi i'w gysylltu rhwng y pebyll, am bris o £3000. Cytunwyd bod mudiadau lleol yn ardal Cyngor Cymuned Llannon yn gallu defnyddio'r pebyll mawrion am ddim pan yn cynnal digwyddiadau lleol.

Minute no. 67 – Grant to Community Associations

Resolved to continue with the provision of a grant of £500 to the 3 communities to support the local carnivals.

Minute no. 68 –Tumble Hall

a) Licensable Activity

Resolved to note that the following licensable activities were ratified by the Council.

Reason – to comply with the terms of premises license (Licensing Act 2003)

June 14 th	Carvery
June 16 th	Carvery
June 18 th	Rock & Roll Night
June 19 th	Home Start Conference
June 21 st	Charity Night for Hendy School
June 22 nd	Ceri Dupree
June 29 th	Groovy UV show
June 29 th	60 th Birthday Party

Meeting ended at 9.40pm

Signed

Date

Cofnod rhif 67 – Grant i Gymdeithasau Cymunedol

Penderfynwyd parhau i ddarparu grant o £500 i'r tri chymuned i gefnogi'r carnifalau lleol.

Cofnod rhif 68 – Neuadd y Tymbl

a) Gweithgarwch Sydd Angen Trwydded

Penderfynwyd nodi bod y gweithgareddau canlynol sydd angen trwydded wedi cael eu cadarnhau gan y Cyngor.

Rheswm – i gydymffurfio â thelerau trwydded y safle (Deddf Trwyddedu 2003)

Mehefin 14 ^{eg}	Carferi
Mehefin 16 ^{eg}	Carferi
Mehefin 18 ^{fed}	Noson Roc a Rôl Rock & Roll Night
Mehefin 19 ^{eg}	Cynhadledd Dechrau'n Deg
Mehefin 21 ^{ain}	Noson Elusen i Ysgol yr Hendy
Mehefin 22 ^{ain}	Ceri Dupree
Mehefin 29 ^{ain}	Sioe Groovy UV
Mehefin 29 ^{ain}	Parti Penblwydd 60 oed

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40 yh

Llofnod

Dyddiad

